Animal & Plant Health Agency

# Yr Uned Wenyn Genedlaethol

## Helpu Gwenyn

### Ionawr 2022

**Rydym i gyd yn ymwybodol o'r dirywiad yn y boblogaeth gwenyn, nid yn unig yn y DU ond ledled y byd hefyd. Mae gwenyn yn beillwyr planhigion pwysig ac yn elfen sylweddol yn y broses o gynhyrchu ein bwyd, a gall pob un ohonom wneud rhywbeth i'w helpu – gan ddechrau yn ein gerddi ein hunain.**

### Beth y gallwn ei wneud i helpu?

Mae plannu planhigion sy'n gyfeillgar â gwenyn yn rhywbeth y gall y rhan fwyaf o bobl ei wneud, hyd yn oed os yw hynny ond yn golygu plannu blodau addas mewn bocsys ffenestri ac ar falconïau.

### Pa blanhigion sy'n addas?

Rhoddir rhai awgrymiadau ar gefn y daflen hon. Yn fras, blodau hen ffasiwn a syml sydd orau yn aml, yn hytrach na mathau amlflodeuog. Mae'r lleoedd gorau i wenyn fel arfer yn cynnwys cymysgedd o blanhigion a choed blodeuol sydd, rhyngddynt, yn darparu paill a neithdar i wenyn drwy gydol y flwyddyn.

### Beth y dylwn ei wneud os byddaf yn gweld gwenynen swrth yn fy ngardd neu fy nghartref?

Bydd y gwenyn hyn fel arfer wedi blino'n lân neu'n llwgu a bydd eu bwydo â hydoddiant o siwgr cansen gwyn pur a dŵr yn aml yn foddion gwyrthiol iddynt! **Peidiwch â defnyddio hydoddiant o fêl a dŵr** oherwydd gall rhai mathau o fêl gynnwys pathogenau niweidiol sy'n lladd mag gwenyn mêl. Nid yw'r pathogenau hyn yn effeithio ar bobl o gwbl.

### Beth y dylwn ei wneud os byddant yn nythu yn fy nhŷ neu fy ngardd?

Os oes modd, dylid gadael llonydd i safleoedd nythu cacwn a gwenyn unig. Os na fyddwch yn tarfu arnynt, byddant yn gadael llonydd i chi. Os bydd haid o wenyn mêl yn nythu, cysylltwch â gwenynwr lleol neu'r gymdeithas wenyna leol. Byddant yn fwy na pharod i gynnig cyngor i chi ac mae'n bosibl y byddant yn eu casglu, yn eu rhoi mewn cwch gwenyn

ac yn eich cyflwyno i grefft gwenyna o bosibl. Os bydd gwenyn mêl o fewn adeiledd eich tŷ, bydd angen i chi gael cyngor arbenigol wedi'i deilwra yn unol â'r amgylchiadau.

## Hoffwn gael cwch o wenyn mêl yn fy ngardd. Beth y dylwn ei wneud?

Os na hoffech ddysgu'r grefft, byddai llawer o wenynwyr wrth eu bodd yn gosod cwch gwenyn mewn gardd addas. Os hoffech ddysgu'r grefft, neu os hoffech weld a fyddai hyn o ddiddordeb i chi, yna byddai eich cymdeithas wenyna leol yn fwy na pharod i'ch helpu. Mae manylion cyswllt eich cymdeithas leol i'w gweld ar wefan Cymdeithas Gwenynwyr Prydain (BBKA) yn:
http://www.bbka.org.uk/about/local_associations/find_an_association.php

## Sut y gallaf annog cacwn a gwenyn unig i nythu yn fy ngardd?

Gallwch brynu blychau a thiwbiau nythu yn fasnachol neu greu eich rhai eich hun. Gall fod yn hwyl eu paratoi a'u poblogi, ond yn anodd hefyd. Mae'r tŷ gwenyn yn ffordd wych o wneud hyn, yn enwedig er mwyn denu gwenyn unig a fydd yn defnyddio'r tyllau i aeafu eu larfâu ifanc. Mae llawer o ffyrdd o sicrhau y byddwch yn denu gwenyn i'r ardd, ac mae prynu tŷ gwenyn yn gam cyntaf gwych. Er mwyn gwneud hyn yn fwy tebygol, dylech hongian eich tŷ gwenyn mewn lle cysgodol ac o leiaf dair troedfedd oddi ar y ddaear gyda'r tyllau (mynedfeydd) yn wynebu i'r de neu'r dwyrain er mwyn dal haul y bore. Pan fydd y tyllau wedi'u selio â mwd neu ddail, yna byddwch yn gwybod bod gwenyn yn datblygu ar y tu mewn ac mae'n well gadael llonydd iddynt.

## Tyfu Blodau Gardd Addas

O ganlyniad i newidiadau i ddulliau ffermio a cholli gwrychoedd a chynefinoedd eraill sy'n addas i wenyn, mae rhywogaethau a niferoedd o wenyn wedi lleihau'n sylweddol dros y 250 mlynedd diwethaf, fwy na thebyg, ac mae hyn wedi cyflymu ers yr Ail Ryfel Byd. Gallwn annog gwenyn gwyllt i'n gerddi neu ein tir mewn llawer o ffyrdd, a'r symlaf o'r rhain yw tyfu amrywiaeth o flodau addas.

Dyma rai enghreifftiau o rywogaethau o flodau sy'n atyniadol i wenyn:

- Saffrwm, *Crocus spp.*
- Cyfardwf, *Symphytum spp.*
- Marddanhadlen felen, *Galeobdolon luteum*
- Marddanhadlen wen a choch, *Lamium spp.*
- Lafant, *Lavandula spp.*
- Saets, *Salvia spp.*
- Teim, *Thymus spp.*
- Marjoram, *Origanum vulgare*
- Rhosmari, *Rosmarinus officinale*
- Gwyddfid y gaeaf, *Lonicera fragrantissima*
- Eirlys, *Galanthus spp.*
- Clust yr Oen, *Stachys lanata*

- Cycyllog, *Scutellaria spp.*
- Glesyn y coed, *Ajuga spp.*
- Mynawyd y bugail, *Geranium spp.*
- Trwyn y llo, *Antirrhinum spp.*
- Llin y llyffant, *Linaria spp.*
- Pysen bêr, *Lathyrus spp.*
- Bysedd y cŵn, *Digitalis purpurea*
- Mahonia, *Mahonia spp.*

Mae'r ffrwythau, llysiau a phlanhigion gardd cyffredin eraill hyn yn atyniadol iawn hefyd:

- Mwyar duon
- Cyrens cochion
- Cyrens duon
- Mafon
- Mefus
- Afalau
- Gellyg
- Ffa llydain
- Ffa dringo
- Pys
- Eirin
- Grug
- Eiddew
- Tafod yr ych
- ... a Dant y llew!

Gall cymysgeddau o hadau blodau gwyllt fel y gwelir mewn dolydd fod yn fuddiol iawn, yn dibynnu ar y math o gymysgedd, ac ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd coed fel ffynhonnell fwyd: mae helyg yn arbennig yn ffynhonnell dda iawn o baill ar ddechrau'r gwanwyn.

**National Bee Unit**
APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York YO41 1LZ
Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk
Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk